



YSGOL GYFUN GYMRAEG  
**GLANTAF**  
CORON GWLAD EI MAMIAITH

## Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf  
Caerdydd, CF14 2JL

**Pennaeth/Head:**  
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090

[ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk](mailto:ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk)

[www.glantaf.cymru](http://www.glantaf.cymru)

Gorffennaf 1, 2022

Annwyl Riant / Warcheidwad,

### Athletau'r Ysgol

Ar ddydd Iau 23ain o Fehefin cynhaliwyd ein athletau yn Stadiwm Athletau Caerdydd; digwyddiad cyffrous ar galendr yr ysgol i'n holl ddisgyblion. Eleni gwelwom gannoedd o'n disgyblion yn cystadlu'n frwd ar draws ystod o gampau. Diolch i'n holl staff, yn arbennig ein hadran Addysg Gorfforol, am eu gwaith caled i drefnu'r diwrnod. Roeddem hefyd yn falch dros ben o'n dysgwyr am eu brwdfrydedd ac egni trwy gydol y dydd ac yn llongyfarch Illtud ar eu buddugoliaeth!



*Cystadleuaeth tynnu rhaff ar ein diwrnod athletau.*

### HMS clwstwr

Ar ddydd Mercher, Mehefin 29ain croesawyd staff y clwstwr i Lantaf ar gyfer HMS yn canolbwyntio ar wella sgiliau siarad a gwranddo dysgwyr, a rhannu strategaethau addysgu dda. Mae aelodau staff bob ysgol wedi bod yn cydweithio trwy gydol y flwyddyn academaidd ar gynllunio cwricwlaid a datblygu strategaethau dysgu ac addysgu.

Agorwyd y cynhadledd gan Emily Pemberton, sef cyn ddisybl Ysgolion Pwll Coch a Phlasmawr, sydd wedi ymgyrchu dros sicrhau amrywiaeth a chynrychiolaeth o fewn y cwricwlwm newydd. Roedd yn braf clywed am ei thaith addysgiadol a chroesawn ei her i ni ddathlu pob math o 'Hunaniaeth Gymreig'. Diolch i ti Emily, a diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y diwrnod. Edrychwn ymlaen at barhau'r cydweithio yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

### Gweithdai Barista

Mae rhai o'n dysgwyr wedi manteisio ar y cyfle i gwblhau cwrs gyda 'Coffi Second Chance', cwmni sy'n cynnig hyfforddiant, cyrsiau hylendid bwyd a gwasanaethau cwsmeriaid. Mae'r dysgwyr wedi derbyn 6 awr o hyfforddiant, cyn cael y cyfle i weithio mewn siop coffi yn ION, Llanishen. Diolch enfawr i Gareth ac i 'Second Chance Coffee' am eu holl gefnogaeth ac arweiniad, a llongyfarchiadau i'n dysgwyr ar eu holl waith caled.

### Pontio blwyddyn 6

Croesawon 240 o ddisgwyr Bl6 i'r ysgol ar ddydd Iau ar gyfer diwrnod blasu chwaraeon. Dychwelodd y disgyblion nol i Lantaf ar ddydd Gwener, er mwyn derbyn gwersi blasu ar draws y cwricwlwm ac i gael eu rhoi mewn i'w dosbarthiadau cofrestru ar gyfer mis Medi. Pleser oedd cwrdd â'r disgyblion ac i weld eu cyffro wrth fynychu'r digwyddiadau pontio.

### Pŵer Pobl Ifanc: wyth dech 15 Awst

Yr haf hwn, mae'r Tîm Trefniadaeth Ysgolion yng Nghyngor Caerdydd yn lansio 'Pŵer Pobl Ifanc: Rhaglen Dylanwadwyr Caerdydd'. Mae'r cyfle unigryw hwn wedi ei gynllunio i alluogi Pobl Ifanc 13-14 oed i gymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o lunio strategaeth ac i ddylanwadu ar sut y bydd y Cyngor yn buddsoddi miliynau o bunnoedd mewn addysg ledled y ddinas dros y 10



*Mr Morris a Miss Harries yn cyflwyno ar ddydd HMS*

mlynedd nesaf. Dyma rhaglen eithriadol o gyffrous gyda gwybodaeth oll a r safle Google Classroom Bl8 a'r ddolyn i'r ffurflen gais yma: [Pŵer Pobl Ifanc: Rhaglen Dylanwadwyr Caerdydd 2022 \(office.com\)](#)



Arddangosfa gelf yn y neuadd

### Arddangosfa Celf

Cynhaliwyd arddangosfa gelf gan ddisgyblion CA4 a 5 yr wythnos hon, er mwyn arddangos eu holl waith TGAU a Safon Uwch. Roedd yn gyfle i wahodd rhieni a staff i ddod ac edmygu eu holl waith caled. Diolch i'r Adran Gelf a llongyfarchiadau i'r holl arlunwyr ar arddangosfa greadigol hynod gofiadwy.

### Rygbi Gynghrair Dan 13



Cyn ddisgybl Meg Jones, gyda merched bl.9

Hoffwn ddymuno pob lwc i'n tîm rygbi gynghrair dan 13 yn Rownd Derfynol Cwpan Rygbi'r Gynghrair Prydain, sy'n cael ei cynnal yn Newcastle ar nos Wener yr 8fed o Orffennaf. Nhw ydy'r tîm merched Cymraeg cyntaf i gyrraedd y rownd yma. Roedd y chwaraewyr yn ddigon ffodus i gael Meg Jones – chwaraewraig rygbi Lloegr a Phrydain Fawr (a chyn-ddisgybl Glantaf!) yn rhannu peth o'i harbenigedd cyn y diwrnod mawr. Pob lwc ferched, amdani!

### Prosiect ymbarel a gefnogir gan y sefydliad ADHD

Mae ymbarelau amryliw wedi cael eu harddangos yn ein hardal *bistro*, er mwyn codi ymwybyddiaeth ar amrywiaeth niwro o fewn ein hysgol. Pwrpas y prosiect ydy pwysleisio unigoliaeth, ac i ddathlu'r amrywiaeth gyfoethog o fewn ein cymuned.

### 'Debate Mate'

Teithiodd disgyblion o flynyddoedd 8 a 9 lawr i Stadiwm y Principality i gymryd rhan yng nghystadleuaeth dadlau, *Debate Mate* yn erbyn ysgolion ar draws Caerdydd. Canmolwyd y disgyblion ar eu cyfraniad a'u perfformiad, diolch am eich paratoi gofalus.

### Trefniadau a phrofiadau diwedd tymor

Gorff 4, 5, 6 – Diwrnodau blas ar wersi i bawb sydd am ymuno gyda ni am y 6ed dosbarth  
Gorff 6 – Gweithdy i flwyddyn 9 gan Shelter Cymru ar ddiartrefedd  
Gorff 4, 5, 6 – Teithiau Dyniaethau i Fae Caerdydd  
Gorff – 6, 7, 13, 14 – Alldeithiau Dug Caeredin i fl.10  
Gorff 10 – *Ras am fywyd*, Parc Bute – pob lwc i dîm Glantaf!  
Gorff 18 – Taith Parc y Deri (bl.8)  
Gorff 20 – Taith Parc y Deri (bl.9)  
Gorff 20 – Taith Sioe Frenhinol (bl.7 - 10)  
Gorff 21 – Taith Parc y Deri (bl.7)



Prosiect ymbarel yn Bistro yr ysgol

Rydym yn falch bod ein gwefan wedi'i ddiweddarau, [Ysgol Glantaf](#) ac os oes gennych awgrymiadau ynglyn a'r llwyfan, yna mae croeso i chi gysylltu â ni. Edrychwn ymlaen i rannu ein adroddiad blynyddol yn yr wythnosau sydd i ddod yn ogystal ag adroddiadau diwedd flwyddyn disgyblion a threfniadau Medi 2022.

Yn gywir,  
Dyfrig G Rees

Dirprwy Bennaeth  
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



Disgyblion bl.8 a 9 yn Stadiwm y Principality